



---

# ADRODDIADAU ARHOLWYR

---

**LEFEL 2 IECHYD A GOFAL  
CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A  
CHYD-DESTUNAU**

**HAF 2022**



Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:  
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?!=cy>

### **Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

### **Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

<b>Uned</b>	<b>Tudalen</b>
Uned 1	1
Uned 2	4

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

## Lefel 2

Haf 2022

### UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT DRWY GYDOL CAMAU BYWYD

#### Sylwadau Cyffredinol

Mae'n braf adrodd bod nifer calonogol o ymgeiswyr yn cael eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster.

Roedd hi'n ymddangos bod ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad hwn. Roedd eu hymatebion yn dangos bod canolfannau wedi ymdrechu i ymdrin yn llawn â'r fanyleb er gwaethaf yr heriau parhaus a wynebwyd. Ceisiodd ymgeiswyr y rhan fwyaf o gwestiynau gyda dim ond ychydig o hepgoriadau.

Awgrymodd y sgrïptiau fod digon o le yn cael ei ganiatáu ar gyfer ymatebion ymgeiswyr, gyda dim ond ychydig o ymgeiswyr yn defnyddio papur ychwanegol a/neu lyfrynnau parhad. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr a wnaeth ddefnyddio llyfrynnau parhad yn nodi'n glir eu bod wedi gwneud hyn, ac roedd hynny oedd o gymorth yn ystod y broses farcio.

Roedd llawysgrifen yn ddarllenadwy ac roedd sillafu a gramadeg yn bositif, i safon lefel 2 dda yn y rhan fwyaf o achosion.

Roedd tystiolaeth o ymgeiswyr yn camddarllen cwestiynau oedd yn cyfyngu eu mynediad at farciau.

Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn cynnig ymatebion wedi'u datblygu i'r holl gwestiynau a oedd yn gofyn am fwy na nodi neu roi datganiad; Ni welwyd pwyntiau byr na phwyntiau bwled yn rheolaidd. Prin iawn oedd yr atebion un gair neu frawddegau byr, gan awgrymu bod ymgeiswyr yn ymgysylltu â'r cwestiynau.

Er mwyn gallu cyrraedd marciau'r band uwch ar gyfer y cwestiynau ymateb estynedig, mae angen i ymgeiswyr gymhwyso eu hymateb at y senario – yn rhy aml, gwelwyd tystiolaeth o ymatebion generig heb eu cymhwyso a diffyg terminoleg pwnc-benodol.

Nid oedd cwestiynau a oedd yn gofyn am ystyried iechyd a llesiant bob amser yn mynd i'r afael â'r ddwy agwedd ac roedd hynny'n cyfyngu ar y marciau y gellid eu dyfarnu.

#### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

**Cw.1** Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu adnabod y camau bywyd yn gywir, fel yr amlinellir yn y fanyleb, ac roedd hynny'n dda i'w weld.

**Cw.2** (a), (b), (c) Gwelwyd amrywiaeth o ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd tystiolaeth o gamddarllen – i gael marciau llawn, roedd gofyn i ymgeiswyr ymateb drwy nodi ffyrdd y gwnaeth pob ffactor ddylanwadu ar yr agwedd ar ddatblygiad a enwir yn y cwestiwn.

(ch) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr. Rhoddwyd marciau am gyfeirio at gerrig milltir corfforol datblygiad babanod yn unig.

**Cw.3 (a)** Gwybodaeth dda am y dylanwadau cadarnhaol mae cael eu cyflogi yn eu cael ar lesiant, gyda llawer o ymgeiswyr yn cyfeirio at y ffaith bod Brad yn falch o'i rôl fel nyrs iechyd meddwl. Roedd cael incwm rheolaidd yn ymateb poblogaidd hefyd.

(b) Roedd ymgeiswyr yn gallu adnabod effaith gweithio shifftiau ac oriau hir ar ddatblygiad Brad. Er mwyn gallu ennill y band marciau uchaf, roedd gofyn i ymgeiswyr asesu'r effaith. Awgrymodd ymgeiswyr iselder ac ymddygiad anniddig fel yr effaith fwyaf mae gweithio shifftiau yn ei chael, ynghyd â methu treulio amser o safon gyda'r teulu.

Yn y rhan fwyaf o ymatebion, roedd effaith gweithio shifftiau yn canolbwyntio ar effeithiau negyddol yn unig, gan roi asesiad anghybwys. Ychydig o ymgeiswyr oedd yn awgrymu effeithiau cadarnhaol o weithio shifftiau, fel ffytio i mewn gydag ymrwymadau teuluol.

**Cw.4 (a)** Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio, gyda llawer o ymgeiswyr ddim yn mynd i'r afael â'r ffaith mai plentyn neu berson ifanc o dan ddeunaw oed oedd yn gofalu am aelod o'r teulu neu ffrind. Roedd ymgeiswyr nad oeddent yn gallu diffinio'r term 'gofalwr ifanc' yn ei chael hi'n anodd ateb y cwestiynau cysylltiedig, 4 (b) ac (c).

(b) Rhoddwyd amrediad o ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn – awgrymodd ymgeiswyr yn y band marciau isel fod bod yn ofalwr ifanc yn ddewis ac yn brofiad da ar gyfer gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, tra bod ymgeiswyr a enillodd y band marciau uchaf yn mynd i'r afael yn gywir â'r dylanwad ar dwf, iechyd, a llesiant.

(c) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gan ymgeiswyr a esboniodd y gefnogaeth mae sesiynau cwnsela a grwpiau cefnogi yn ei rhoi i ofalwr ifanc.

**Cw.5 (a)** Roedd ymgeiswyr yn gallu adnabod arferion hylendid yn y rhan fwyaf o achosion. Collodd rhai ymgeiswyr farciau am ailadrodd a defnyddio atebion tebyg, er enghraifft, 'golchi' a 'golchi wyneb'.

(b) Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn disgrifio arwyddion yn gywir sy'n dangos bod plentyn yn barod i'w hyfforddi i ddefnyddio'r toiled.

**Cw.6 (a)** Nododd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gywir bod dod o hyd i swydd newydd yn ddigwyddiad bywyd disgwylidig.

(b) Gwelwyd amrywiaeth o ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn, gyda pheth tystiolaeth o gamddarllen y cwestiwn. Rhoddwyd marciau am ymatebion a oedd yn canolbwyntio ar ddiffyg hunanhyder.

(c) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr drafod dylanwadau cadarnhaol ffactorau amgylcheddol a statws economaidd. Ar y cyfan, roedd ymatebion ymgeiswyr yn annelwig, gyda llawer o ymgeiswyr ddim yn rhoi cynnig ar y cwestiwn. Roedd yn amlwg o'r ymatebion nad oedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn adnabod y termau ac felly wedi methu ag ateb yn briodol. (Mae maes testun 1.2 y fanyleb yn cyfeirio at.)

- Cw.7** (a) Roedd y cwestiwn hwn yn ymddangos yn heriol, gyda dim ond y lleiafrif o ymgeiswyr yn diffinio'r term 'cynhwysiant' yn gywir ar gyfer y 2 farc llawn. Rhoddodd rhai ymgeiswyr ymatebion annelwig am unigolion oedd eisiau cael eu cynnwys nad oeddent yn ennill unrhyw gredyd. (Mae maes testun 1.3 y fanyleb yn cyfeirio at.)
- (b) Roedd tystiolaeth o ddealltwriaeth sylfaenol o hunangysyniad; fodd bynnag, roedd ymatebion rhai ymgeiswyr yn gyfyngedig, gyda rhai yn ailadroddus ac annelwig. Er mwyn cyrraedd y band marciau uwch, roedd disgwyl i ymgeiswyr enwi'r ffactorau fel rhan o'u hymateb. Mae'r ffactorau sy'n llywio hunangysyniad yn faes pwysig o'r fanyleb ac argymhellir bod digon o oriau dysgu yn canolbwyntio ar y testun hwn wrth baratoi at garfanau'r dyfodol. (Mae maes testun 1.3 y fanyleb yn cyfeirio at.)
- (c) Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gydag ymgeiswyr yn rhestru nodweddion y Ddeddf, ond nid y pwrpas. Er mwyn ennill marciau llawn, roedd angen i ymgeiswyr esbonio pwrpas y Ddeddf. Mae deddfwriaeth bresennol yn faes testun pwysig y dylid mynd i'r afael ag ef ar gyfer carfanau yn y dyfodol.
- Cw.8** (a) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr esbonio pam mae'r ymgyrch hon wedi'i thargedu at gyfnod bywyd oedolaeth ddiweddarach. Er i rai ymgeiswyr ateb y cwestiwn yn gywir gydag esboniadau manwl, roedd rhai oedd yn awgrymu dulliau o gadw unigolion yn gynnes, gan nodi camddarlleniad neu ddiffyg dealltwriaeth o'r cwestiwn.
- (b) Roedd y cwestiwn yn gofyn i ymgeiswyr drafod y defnydd o hysbysebion ar y teledu ac mewn papurau newydd ar gyfer hyrwyddo ymgyrchoedd iechyd a llesiant ymhlith unigolion mewn oedolaeth ddiweddarach. Yn aml roedd yr ymatebion yn gyfyngedig, gyda rhai ymgeiswyr yn ysgrifennu un neu ddau bwynt bwled, heb drafodaeth fanwl. Er mwyn ennill marciau yn y bandiau uchaf, roedd gofyn i ymgeiswyr drafod safbwyntiau cadarnhaol a negyddol a dod i gasgliadau.

### **Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Dylai ymgeiswyr fod yn fwy gofalus wrth ddarllen y cwestiynau er mwyn atal camddehongli.

Dylid annog ymgeiswyr i ddatblygu eu gallu i fynd i'r afael â'r berfau gorchmynnol 'aseswch' a 'trafodwch'.

Mewn cwestiynau sy'n gofyn i'r ymgeiswyr ystyried iechyd a llesiant, dylent sicrhau eu bod yn ystyried y ddwy agwedd ar iechyd a llesiant er mwyn osgoi rhoi ateb rhannol yn unig.

Mae hyrwyddo ac ymgyrchoedd iechyd a llesiant presennol yn faes pwysig y dylid mynd i'r afael ag ef wrth ddysgu yn y dyfodol. (Mae maes testun 1.4 y fanyleb yn cyfeirio at.)

Mae deunyddiau asesu enghreifftiol, cyn-bapurau a chynlluniau marcio, ac Arweiniad i'r Arholiad ar gael ar y wefan i ymgeiswyr weld sut mae cwestiynau arholiad yn cael eu geirio a'r ymatebion disgwylid. Mae adnoddau ar-lein hefyd yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r fanyleb hon. Am arweiniad pellach, mae deunyddiau DPP ar gael ar y wefan ddiogel.

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 2

Haf 2022

## UNED 2: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL MEWN PERTHYNAS Â CHEFNOGI DARPARIAETH SY'N CANOLBWYNTIO AR GANLYNIADAU AR GYFER GOFAL PERSON-GANOLOG

### Sylwadau Cyffredinol

Roedd canolfannau wedi gweithio'n eithriadol o galed i ddeall y broses ar gyfer cymedroli a chyflwyno eu samplau ar amser gan ddefnyddio system a fyddai, i lawer, yn newydd oherwydd amgylchiadau lliniaru blynyddoedd blaenorol.

Cyflwynodd pob canolfan samplau o waith ar gyfer eu cymedroli a chwblhawyd datganiadau ymgeiswyr.

Cwblhaodd pob ymgeisydd yr aseiniad ond nid oedd tystiolaeth o sut y cafodd y dasg dan reolaeth ei monitro o fewn yr amser penodedig o chwe awr neu a oedd ymgeiswyr yn defnyddio eu nodiadau eu hunain.

Mewn rhai achosion lle'r oedd cyfeirio wedi cael ei ddefnyddio, byddai wedi bod o fudd gweld a oedd hyn wedi'i gynnwys yn nodiadau'r ymgeiswyr.

Gan fod dwy astudiaeth achos i ymgeiswyr ddewis ohonynt, roedd tystiolaeth bod ymgeiswyr wedi cael y dewis hwn, gan y byddai rhyw gymysgedd o *Tegwyn ac Ifor mewn canolfan fel arfer*.

Roedd ymgeiswyr yn gyfarwydd â'u hastudiaeth achos ac roedd y rhan fwyaf yn cyfeirio ati drwy gydol eu hatebion. Roedd ambell aseiniad lle'r oedd gwaith yr ymgeiswyr yn fwy cyfannol.

Ychydig iawn o ymgeiswyr wnaeth fethu rhoi cynnig ar dasg yn llwyr sy'n dangos bod y tasgau'n hygyrch i'r ymgeiswyr ac roedd yr amser a ddyrannwyd i gwblhau'r aseiniad yn ddigonol. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr wedi camddarllen y dasg neu wedi ymateb yn rhannol, gan hepgor gwybodaeth a oedd yn ymwneud â chefnogi canlyniadau personol a chanolbwyntio yn lle ar ran allweddol y cwestiwn.

Cyflwynodd ymgeiswyr waith naill ai ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf wedi'i airbrosesu. Doedd dim problemau gwirioneddol gyda deall yr aseiniadau ond byddai llawer o ymgeiswyr yn eiwa o brawfddarllen eu gwaith cyn ei gyflwyno gan y gallai sillafu a gramadeg fod wedi bod yn well mewn rhai rhannau.

Roedd tystiolaeth glir mewn llawer o'r samplau bod ymgeiswyr yn deall berfau gorchmynnol y meini prawf a phwysigrwydd y marciau oedd ar gael gan fod atebion yn tueddu i ddilyn y rheol 'disgrifiwch', 'eglwurwch'. Roedd hyd y cwestiwn a phan oedd gan gwestiynau sawl elfen yn peri mwy o broblem na berfau gorchmynnol, sy'n dangos bod dysgu wedi digwydd o gwmpas pwysigrwydd y rhain.

Atebwyd cwestiynau gwerth uwch i wahanol raddau ond gwnaeth pob ymgeisydd roi cynnig ar y rhain gyda brawddegau llawn a gwybodaeth berthnasol.

Ychydig iawn o gwestiynau a atebwyd gyda phwyntiau bwled neu atebion byr sy'n dangos lefel dda o ddealltwriaeth o'r uned yn ei chyfanrwydd a sut i gymhwyso gwybodaeth o fewn yr amcanion asesu.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

**Tasg (a)** Rhoddodd pob ymgeisydd gynnig ar y dasg hon, a gwelwyd rhai enghreifftiau rhagorol o ymgeiswyr yn cymhwyso eu gwybodaeth am ddamcaniaethwyr allweddol at anghenion sylfaenol ac yn amlinellu'r anghenion a nodwyd o fewn y cynllun marcio a chymhwyso'r rhain at eu hastudiaeth achos. Fodd bynnag, roedd canran fawr o ymgeiswyr a atebodd y cwestiwn hwn gyda'u dehongliad eu hunain o newidiadau mewn anghenion fel trafndiaeth, newidiadau mewn meddyginiaeth. Cafodd y rhain farciau am 'ymatebion eraill' ond, ar gyfer carfanau yn y dyfodol, byddai ymgeiswyr ar draws canolfannau yn elwa o ddeall anghenion sylfaenol yn unol â manyleb Uned 2.

**Tasg (b)** (i) Atebodd y mwyafrif llethol o ymgeiswyr y cwestiwn hwn yn gywir, gan ailadrodd y canlyniadau a nodwyd yn yr astudiaeth achos.

(ii) Roedd ymatebion i'r dasg hon yn amrywio'n fawr. Disgrifiodd rhai rôl timau amlddisgyblaethol (MDTs) yn gyffredinol ond nid oeddent yn trafod sut y byddent yn helpu i sicrhau canlyniadau personol yn benodol, tra bod eraill yn rhoi disgrifiadau rhagorol o sut y gallai pob aelod o MDT gefnogi canlyniad penodol. Prin oedd yr ymgeiswyr a gafodd y 9 marc llawn yma. Roedd defnydd o'r ferf orchmynnol yn amlwg, ond nid oedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn bodloni pob elfen o'r dasg nac yn rhoi'r ymatebion disgwylidig.

**Tasg (c)** Cafwyd ymateb da iawn i'r dasg hon. Lle atebodd ymgeiswyr gan ddefnyddio GATEAU, gwnaethant hynny'n dda iawn gan lwyddo i ennill marciau uchel gan fod cynnig ymatebion yn seiliedig ar GATEAU wedi eu harwain i drafod sut i gael mynediad at wasanaethau yn y dyfodol. I'r ymgeiswyr hynny nad oeddent wedi defnyddio GATEAU ac wedi dewis esbonio eu dehongliad eu hunain o heriau, roedd ennill marciau uchel yn llai tebygol gan ei bod yn anoddach cymhwyso eu hateb at gael mynediad at wasanaethau iechyd yn y dyfodol a sut i'w goresgyn.

**Tasg (ch)** (i) Roedd rhai ymatebion da iawn i'r dasg hon pan aeth ymgeiswyr at bob elfen o'r cwestiwn ar wahân a'i gymhwyso at gyflawni'r canlyniadau personol un ar y tro.

Roedd amrediad eang o atebion yn cyfeirio at ystyr 'Cydraddoldeb, cynhwysiant a dewis a rheolaeth' yn hytrach na pham mae'n bwysig eu hyrwyddo. Wrth ei ateb yn y fformat hwn roedd ymgeiswyr yn aml yn methu ag esbonio cyd-gynhyrchu.

Roedd canlyniadau personol yn aml yn cael eu trafod yn gyffredinol yn hytrach na sut mae pob elfen yn hyrwyddo canlyniad unigol. Enillodd ymgeiswyr a aeth at bob cydran ar wahân farciau uwch.

(ii) Roedd yr ymgeiswyr yn gyffredinol yn deall beth oedd y codau ymddygiad a sut maent yn cael eu cymhwyso yng Nghymru, gyda rhai ymatebion rhagorol yn disgrifio'r cryfderau a'r gwendidau wrth gefnogi eu hastudiaeth achos. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu trafod y codau ymddygiad mewn perthynas â'r gweithwyr proffesiynol a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

**Tasg (d)** Rhoddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr gynnig ar y cwestiwn hwn gyda graddau amrywiol o wybodaeth. Roedden nhw wedi deall y cysylltiad i 'Fwy na geiriau' ond roedd eu dehongliad o'r ystyr yn amrywiol. Am 15 marc, roedd y dasg hon yn gofyn am ddyfnder gwybodaeth am nodau'r WSF a'r gallu i gymhwyso'r wybodaeth honno i'r canlyniadau personol. Cafwyd rhai enghreifftiau da o hyn gyda marciau uchel yn cael eu dyfarnu ond, ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn rhai ailadroddus ac yn canolbwyntio ar dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg a pharchu unigolion am eu dewisiadau Cymraeg yn hytrach na chydymffurfio â mesurau yn y Gymraeg.

### **Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Berfau gorchmynnol – dylid annog ymgeiswyr i ymgyfarwyddo â'r diffiniad o'r berfau gorchmynnol gan fod marciau wedi'u tynnu mewn rhai achosion am amlinellu ateb hytrach na'i esbonio neu ei drafod.

Prawfddarllen – er nad yw marciau'n cael eu didynnu ar Lefel 2 am wallau sillafu, atalnodi a gramadeg, mewn rhai achosion, byddai prawfddarllen yn gwella'r broses o gyflwyno gwaith yn gyffredinol ac yn caniatáu i'r ymgeisydd nodi a ydyw wedi ymdrin â holl elfennau cwestiwn.

Adnoddau – anogir canolfannau i ddarparu amrywiaeth o adnoddau wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer y cymhwyster hwn ac ar gael oddi ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru i gefnogi dealltwriaeth yr ymgeiswyr o rai elfennau allweddol o'r fanyleb megis yr amrediad o ddamcaniaethwyr sy'n trafod anghenion sylfaenol, timau amlddisgyblaethol a'u rolau proffesiynol, a heriau megis GATEAU.

Manyleb – byddai ymgeiswyr yn elwa o ddod yn gyfarwydd â manyleb yr uned hon a disgwyliadau'r asesiadau. Byddai deall canlyniadau asesu yn caniatáu i'r ymgeiswyr gynllunio eu gwaith a chymhwyso eu gwybodaeth at aseiniadau.

Cwestiynau amlran – anogir ymgeiswyr i ddefnyddio'r deunyddiau asesu enghreifftiol i gael profiad wrth ateb cwestiynau a deall sut i ateb cwestiynau'n llawn pan fo sawl rhan i'w hystyried. Gallai ystyried y marciau a ddyfarnwyd alluogi ymgeiswyr i ganolbwyntio ar bob rhan o'r dasg ac ymateb i bob adran yn hytrach na rhoi ateb cyfannol na fyddai'n ennill marciau uchel.





CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Rhif Ffôn 029 2026 5000  
Ffacs 029 2057 5994  
E-bost: [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)